

IESU O NASARETH

Anghenus yn fy nghyni, – er dioddef,
Ni raid heddiw ofni;
Yn gydymaith gwawd imi,
Gwelaf Frawd ar Galfari.

Er i gynnydd drygioni, – â'i golyn
Dirgelaid fy mhoeni,
Loesion dwyfol sy'n dofi
Dirgel frad ar Galfari.

O foroedd yn ymferwi, – i fy lôr
Y cyfeiriaf weddi;
A glaniaf mewn goleuni,
Os coeliaf ras Calfari.

Er i enaid wirioni, – yma'n llwm,
Yn y llaid a'r bryntni;
Wele eilchwyl i'w olchi
Fôr o waed ar Galfari.

Am elyn, hir ymholi – y bu deddf,
Heb dâl i'w bodloni;
Mwy, ehed i gymodi,
Â gŵyl fron i Galfari.

Seina dân sy'n dihoeni, – a'i daran
Fradwrus yn tewi;
A'i eirias fellt yn oeri
Yn yr lawn ar Galfari.

Cyfiawnder o'i fodd sy'n rhoddi – ei gledd
Dan glo, rhag ei feddwi
Â gwaed, ni fyn ei godi
Â glew fraich ar Galfari.

Duw ddyn o'i rad ddaioni – wacaodd
Gwag eang trueni;
A'i loniant sy'n ei lenwi
Ar ei ôl ar Galfari!

O wyrth! mae'n hongian wrthi – ogoniant
Y gwynnaf dosturi;
A haeddiant yn cyhoeddi
Hawl fyw i rodd Calfari.

Gwaed! gwaed! sydd i'm cysgodi, – a'i 'arwydd'

Erys i borffori

Fy nôr, a than glodfori

Af o'r Aifft i Galfari.

Braw o hanes wybrenni – byd o nos,

Beidia'n awr ymgonni;

Newydd Haul yn wyn ddyli

Fwria'i wawl ar Galfari.

Os yw dy holl groesau di, – O! f'enaïd,

Yn finiog, anghofi

Y poen eilwaith, pan weli

Glwyfo'r Oen ar Galfari.

Evan Rees (Dyfed)

Y PASG

Mae'n galed gen i goelio,

Heb straenio ystyr ffydd,

Holl hanes y croeshoelio

Ddigwyddodd 'slawer dydd,

Gan amled yw amheuon dysg

Yr holl chwilotwyr sy'n ein mysg.

Er 'mod i'n medru canu

Am loes a marwol glwy',

Mae'n anodd im wahanu

Y goel a'r gredo mwy,

Ac nid oes neb a all yn blaen

Egluro'r myth am dreiglo'r maen.

Ond gwn, er gweld llofruddio

O'r hafau yn eu tro,

A'r eira'n eu gorchuddio

A'r rhew'n eu rhoi dan glo,

Y bydd y blodau yn eu nerth

Ar Sul y Pasg dros Hewl y Berth.

Dic Jones

DYMA'R BYD

Dyma'r byd: bu farw'n drist.
Claddwn ef o olwg Crist.
Sleifiwn ni i fynwes draw
Ac fe'i gwithiwn dan y baw.

Dyma'r byd. O! claddwn ef
Gyda llwch y sêr o'r nef.
Ble mae'r bâl? A ble mae'r rhaw?
Ble mae gweddi o'r byd a ddaw?

Nid oes pridd i'w gladdu'n iawn
Yn holl dragwyddoldeb llawn.
Crafu awyr; crafu'r nen
Er mwyn taflu drosto len;

Chwilio'r gwynt a'i ffriliau lu
A phocedi'r daran ddu;
Tyllu'r pechod yn ein byw,
Mynd at Satan, mynd at Dduw;

Mynd at Satan, mynd at Grist
I ymbilio am gael cist;
Nid oes dim a guddia'r sen
Ond cnawd yr Un fu ar y Pren.

*Bobi Jones***DEHONGLIAD Y BARD D O'I GERDD****Dyma'r Byd**

Mae'n rhaid bod pob Cristion yn myfyrio am y ffaith ryfedd fod y dyn naturiol yn cael ei eni 'ar wahân' i Dduw. Hynny yw, mae pob un yn naturiol yn farw i Dduw o safbwynt perthynas fywiol. Dyma destun, a hen destun, yn y gân fach hon; ac mae arnaf ofn, oherwydd diogi, na fyddai wedi bod yn ddigon i mi lunio cerdd.

Ond wrth ymdroi gyda'r meddwl hwn, ac wrth droi i sylu ar bethau sy'n digwydd ledled y ddaear, ac yn wir ynof i fy hun, dyma godi'n sydyn dro o'r gadair. Dyma ebychu'n uchel: 'Eisiau'i gladdu sydd!' A dyna'r testun yn digwydd yn y meddwl. Sef claddu'r byd syrthiedig.

Ond ni fyddai hynny wedi bod yn ddigon chwaith i lunio cerdd. Peth od yw cerdd. Gall mydr ei chynnau weithiau. A'r mydr a'i cyneuodd y tro hwn. Clywed yn y dychymyg fydr cyntefig drymiau'r jwngwl. Nid myfyrdod tawel, ond clywed bwm-bwm. Mae'r ieithwedd i'w benderfynu yn y gerdd hefyd yn perthyn i welediad gwyllt ac elfennaidd, peth sy'n gyrru dyn rywsut i'w llunio. Cân eithafol yw yn dathlu buddugoliaeth marwolaeth dros farwolaeth. Roedd y testun yn llethol ond yn dwyn mynegiant i ben.

Bobi Jones